Canllaw ynghylch Addasiadau Tai a Grantiau



Cyngor Sir Penfro

Beth yw addasiad?

Os bydd newidiadau neu ychwanegiadau'n cael eu dodi yng nghartref person ag anabledd er mwyn iddo fod yn addas iddynt fyw ynddo, yna dyna beth yw addasiad. Caiff addasiadau eu gwneud er mwyn i drigolion anabl allu defnyddio'r holl fannau angenrheidiol yn eu cartref a gallu byw bywyd mor annibynnol ag y bo modd.

Pa fath o waith allai gael ei wneud?

Bydd y cyngor yn pwyso a mesur eich anghenion ac os cytunir bod y gwaith yn angenrheidiol a phriodol yna byddwn yn ystyried y ffordd fwyaf ymarferol o'ch helpu chi. Byddwn yn rhoi ystyriaeth i'ch barn chi pan fyddwn yn gwneud hyn.

Efallai y bydd y Cyngor yn gallu eich cynorthwyo gydag addasiadau ar gyfer y canlynol:

- Mynediad i'ch cartref ac oddi yno e.e. rampiau parhaol at y drws ffrynt.
- Sicrhau bod eich cartref yn ddiogel i chi e.e. dodi canllawiau.
- Mynediad i'ch prif ystafell fyw
- Mynediad i'ch ystafell wely.
- Mynediad i'r toiled a'r cyfleusterau ymolchi.
- Mynediad i'r cyfleusterau priodol ar gyfer cael bath.
- Mynediad er mwyn ichi allu coginio bwyd e.e. addasiadau i'ch cegin.
- Sicrhau y gallwch chi ddefnyddio'r systemau trydan, golau neu wresogi.
- Addasu eich cartref er mwyn i un person anabl allu gofalu am drigolyn arall.

Beth wyf i'n ei wneud nesaf?

1. Ffoniwch Ganolfan Gyswllt y Cyngor ar 01437 764551. Byddant yn llanw holiadur ar eich cyfer, dros y ffôn, er mwyn gweld beth yw'ch amgylchiadau.
2. Os byddwch chi'n bodloni'r meini prawf, bydd Therapydd Galwedigaethol ac/neu aelod o dîm Tai'r Sector Preifat (sy'n ymdrin â grantiau ac addasiadau ar gyfer tenantiaid y sector preifat a chyhoeddus) yn dod i'ch cartref er mwyn cynnal asesiad. Fel arall, efallai y cewch eich rhoi dan ofal gwasanaeth mwy priodol e.e. Bwrdd Iechyd Hywel Dda.
3. Bydd yr ymweliadau hyn yn sicrhau y cewch chi'r cymorth a'r cyngor gorau posibl.
4. Os ydych chi'n denant Cymdeithas Adeiladu yna bydd canlyniad yr asesiad hwn, gyda'ch caniatâd chi, yn cael ei anfon ymlaen at y Landlord, er mwyn iddo/iddi gymryd camau gweithredu yn ei gylch.

Am ragor o wybodaeth, gweler y daflen ar wahân o'r enw 'Y Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol'.

A fyddaf yn cael cymorth?

Byddwn yn ystyried, gan bwyll, ai addasiad i'ch cartref yw'r dewis gorau ar eich cyfer chi. Fe allem fwrw golwg ar ddewisiadau eraill yn gyntaf, fel darparu offer e.e. offer arbenigol ar gyfer mynd i'r bath neu offer codi mecanyddol, neu roi cymorth ichi symud i gartref mwy addas.

Ar ôl yr asesiad, bydd tîm Tai'r Sector Preifat yn trafod eich sefyllfa ac yn rhoi gwybod ichi a ydych yn gymwys i gael y math o gymorth a restrir drosodd. Mae manylion ychwanegol y meini prawf ar gyfer pob dewis i'w gweld ar ffeithlenni ar wahân.

Pa gymorth sydd ar gael?

Mae amryw ddewisiadau ar gael er mwyn cynorthwyo i fodloni eich anghenion penodol. Bydd y gwahanol ddewisiadau'n dibynnu ar a ydych chi'n un o denantiaid cymwys y Cyngor, Cymdeithas Tai, neu'n denant preifat neu'n berchen tŷ. Mae'r dewisiadau wedi cael eu rhestru isod.

Tenant y Cyngor

Os ydych yn un o denantiaid y Cyngor yna fe allech fod yn gymwys i gael un o'r canlynol, yn dibynnu ar eich anghenion a'r math o waith sydd ei angen:

- Grant Cyfleusterau i Berson Anabl (ar gyfer gwaith sylweddol fel rheol)
  neu
- Gwaith Uniongyrchol. Mân dasgau yw'r rhain a wneir ar eich rhan gan y Cyngor, sef eich landlord.

Tenant Cymdeithas Tai

Mae'r broses ychydig yn wahanol i denantiaid Cymdeithas Tai ac felly dylech gysylltu â'ch landlord eich hun er mwyn cael cymorth a chyngor ynghylch grantiau ac addasiadau.

Perchen tŷ neu denant sy'n rhentu gan y sector preifat (h.y. nid gan y Cyngor na Chymdeithas Tai chwaith).

Os ydych chi'n berchen tŷ neu'n rhentu gan y sector preifat yna fe allech fod yn gymwys i gael un o'r canlynol, yn dibynnu ar beth yw'ch anghenion a'r math o waith sydd ei angen:

- Grant Cyfleusterau i Berson Anabl ar gyfer gwaith sydd, fel arfer, yn costio mwy na £1,000.
- Grant Cynllun Carlam ar gyfer gwaith sydd, fel arfer, yn costio llai na £1,000.
- Rhaglen Addasiadau Ymateb Cyflym Gofal a Thrwsio. Ar gyfer gwaith sy'n costio llai na £350.

Beth yw'r Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl?

Bwriad y Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl yw rhoi cymorth i'r bobl hynny sy'n prin gallu fforddio talu am waith er mwyn addasu eu cartref. Yr uchafswm grant ar hyn o bryd yw £25,000. Caiff y grant ei ddarparu i wneud gwaith hanfodol i eiddo er mwyn cynorthwyo pobl i barhau i fyw yn eu cartref eu hunain.

Beth yw Gwaith Uniongyrchol?

Caiff Gwaith Uniongyrchol ei wneud i'ch cartref os ydych chi'n un o denantiaid y Cyngor. Bydd y gwaith yn cael ei wneud gan yr Adran Cynnal a Chadw Adeiladau neu gan isgontractwyr arbenigol a gyflogir gan y Cyngor. Mân dasgau ydynt fel arfer y gellir eu gwneud er mwyn cynorthwyo i'w gwneud hi'n rhwyddach i denantiaid fyw yn eu cartref. Er enghraifft gallai gynnwys dodi cawodydd hygyrch yn lle baddonau, lifftiau staer syth, canllawiau neu rampiau.

Beth yw Grantiau Cynllun Carlam?

Bwriad grantiau mân dasgau yw cynorthwyo perchnogion tai a thenantiaid y sector preifat i wneud tasgau cymharol fân (sydd fel arfer yn costio hyd at £1,000 neu hyd at £3,000 os nad yw Grant Cyfleusterau i Berson Anabl yn briodol) yn eu cartrefi fel dodi cawodydd hygyrch yn lle baddonau, lifftiau staer syth, canllawiau neu rampiau.

Am ragor o wybodaeth mae gyda ni'r ffeithlenni hyn ar gael:

Sylwer – fe allai'r denantiaeth sydd gyda chi effeithio ar y math o gymorth grant sydd ar gael ichi.

'Canllaw ynghylch grantiau ac addasiadau ar gyfer tenantiaid y Cyngor'

'Canllaw ynghylch grantiau ac addasiadau ar gyfer perchnogion tai a thenantiaid y sector preifat'

Beth yw'r Gwasanaeth Gofal a Thrwsio?

Asiantaeth elusennol breifat yw Gofal a Thrwsio. Fe gânt eu sefydlu i gynorthwyo pobl hŷn (dros 60 oed) a phobl anabl neu sy'n agored i niwed, sydd hefyd yn berchnogion tai neu'n denantiaid rhent preifat, er mwyn iddynt allu byw'n annibynnol yn eu cartref eu hunain. Mae rhai o wasanaethau Gofal a Thrwsio yn cynnwys:

- Gwneud tasgau pris isel yn unol â'u Rhaglen Addasiadau Ymateb Cyflym a'u Gwasanaeth Tasgmon e.e. dodi canllawiau cydio.

Mae hyn yn darparu gwasanaeth sy'n cynnwys:

- Cynorthwyo i gael dyfynbrisiau am waith a chymorth i lanw ffurflenni cais.
- Sicrhau eich bod yn hawlio'r holl fudd-daliadau lles y mae gyda chi hawl i'w cael.
- Rhoi cymorth gyda diogeledd y cartref.
- Cynnal Asesiadau Diogelwch y Cartref er mwyn Atal Cwympiadau.

Maent yn sefydliad annibynnol ar y Cyngor Sir.

Mae eu manylion cysylltu i'w gweld ar waelod y daflen hon.

Fydd yn rhaid imi dalu o gwbl?

Bydd hyn yn dibynnu ar eich amgylchiadau personol a'r math o gymorth yr ydych yn ei gael. Oni bai eich bod yn cael budd-dal cymhwysol, bydd yn rhaid ichi gael prawf adnoddau fel rhan o'r broses grant. Mae rhagor o wybodaeth ac enghreifftiau i'w cael ar y ffeithlen ar wahân.

Faint o amser fydd hyn yn ei gymryd?

Bydd hyn yn dibynnu ar y math o waith a'r cymorth yr ydych yn ei gael. Mae gyda ni amseroedd targed ar gyfer cwpla'r holl dasgau ac mae'r manylion i'w gweld yn y ffeithlen. Byddwn hefyd yn dibynnu ar ein cwsmeriaid, a gofynnwn iddynt anfon gwybodaeth yn ôl atom cyn gynted ag y bo modd er mwyn cyflymu'r broses e.e. llanw ffurflenni cais, penderfynu ar adeiladwyr ac ati.

Pwy fydd fy nghysyllbwynt?

Eich prif gysyllbwynt fydd tîm Tai'r Sector Preifat sy'n ymdrin â'r grantiau a'r addasiadau ar gyfer perchen-feddianwyr a'r tenantiaid yn y sector preifat. Mae gwasanaeth cyngor ar gael rhwng 9.00am a 5.00pm o ddydd Llun i Gwener. Os bydd gyda chi unrhyw gwestiynau neu ymholiadau yna cofiwch gysylltu â'r canlynol:

Tîm Tai'r Sector Preifat
Cyngor Sir Penfro,
Neuadd y Sir,
Freemans Way,
Hwlffordd,
Sir Benfro,
SA61 1TP.
Ffôn: 01437 775738 neu 01437 775625
e-bost: psh@pembrokeshire.gov.uk
www.pembrokeshire.gov.uk/housing

Therapi Galwedigaethol neu gyngor a chymorth cyffredinol
01437 775738 neu 01437 775481
e-bost: psh@pembrokeshire.gov.uk

Proses gwneud cais am grant
Clercod Technegol
01437 775649 neu 01437 775625
e-bost: psh@pembrokeshire.gov.uk

Gofal a Thrwsio Sir Benfro
Tŷ Meyler,
Hwlffordd,
Sir Benfro,
SA61 1QP
Ffôn: 01437 766717
www.pembs-ha.co.uk

Sut allaf i ganmol rhywun neu wneud cwyn?

Byddwn wastad yn ceisio bodloni eich anghenion gystal ag y gallwn. Os ydym wedi llwyddo'n dda yna cofiwch roi gwybod inni er mwyn inni allu gweithredu fel hyn mewn maes gwaith arall. Os hoffech roi awgrym ar gyfer gwella neu wneud cwyn yna mae croeso ichi gysylltu â'r Swyddog Cyswllt Cwsmeriaid trwy ddefnyddio'r manylion a nodir isod:

01437 776556
Ystafell 2A, Neuadd y Sir, Hwlffordd, SA61 1TP
enquiries@pembrokeshire.gov.uk

Er mwyn cael copi o'r daflen hon mewn print bras, Braille, tâp sain neu iaith arall, byddwch cystal â chysylltu â Chyngor Sir Penfro ar (01437) 776613